

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 9 November, 2015** at 7.15 p.m.

**PRESENT:** - Her Worship The Mayor Councillor Mrs E Butler  
The Deputy Mayor, Councillor D Williams  
Councillors Mrs L Day D Llewelyn J M Martin  
Mrs J Forsyth Mrs J Marshall G O Roberts  
J Wynn Jones R K Marshall M Shultan

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

#### **123/15 APPOINTMENT OF CHAIRMAN**

**RESOLVED** that Councillor M Shultan be appointed chair of the Committee and Councillor Gwynant Roberts be appointed as Vice-chairman for the remainder of this municipal year

#### **124/15 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors D Hainge (illness), D Madge (operation), N Pickavance (unwell) and E H Williams (unwell).

#### **125/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None

#### **126/15 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C15/0797/11/ CR** Demolish existing buildings and repair the wall where the buildings were joined. 390 High Street, Bangor. **No objection**

**C15/1027/11/LL** Application for the demolition of existing house and erection of new house. Coach House, Belmont Road, Bangor. **No objection. However, there was concern expressed by local members about the size of the development and the Planning Officer should ensure that it is in keeping with planning and environmental regulations.**

**C15/1081/11/LL** Re-submission of a previous application to import inert materials in order to raise existing ground levels. Hen Iard Gychod Dickies, Beach Road, Bangor. **Councillors decided to defer any decision on this application as they considered further information was required in respect of materials to be used and also how high the existing levels were to be raised.**

**C15/1111/11/CR** Replace the first floor windows with traditional timber ones, remove the cement render and retain the stone finish to the front of the building and lime render on the rest of the building, and replace modern door on the gable end with traditional window. Tan yr Allt House, Glanrafon Hill, Deiniol Road, Bangor. **No objection.**

**C15/1120/11/LL** Two Storey rear extension. 21 Ffordd Hendrewen, Bangor. **No objection.**

**C15/1126/11/HY** Erection of 2 externally illuminated signs on existing totem and 11 non-illuminated internal window signs. Farmfoods, Britannia Shopping Centre, Caernarfon Road, Bangor. **No objection.**

Councillor Mrs J Marshall, as a Member of the Gwynedd Council Planning Committee, did not vote and took no part in the discussion on any of the above applications apart from the applications within her own Ward.

**126/15 HIGHWAY MATTERS**

**RESOLVED** that a letter of thanks be sent to Gwynedd Council for ensuring the re surfacing work that was due to take place between the Asda roundabout and the Aldi roundabout prior to the opening of Pontio would be undertaken during night time hours and that a suggestion be made that works continue along Deiniol Road at some point in the not too distant future.

**127/15 LICENSING MATTERS**

Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982 Part II Control of Sex Establishment -Nice 'N' Naughty, 25 Stryd Fawr, Bangor. - **No objection.**

Notice of Application Licensing Act 2003 - Premises Licence – Morrisons, Ffordd Caergybi, Bangor. **No objection.**

The Town Clerk informed the Committee that following the City Council's objection to the opening hours with regard to the licensing act 2013 submitted to the last committee Unit 5A The Menai Centre, Garth Road, Bangor., he had been informed by Gwynedd Council that the applicant had agreed to amend the hours of opening to a 9.00am start rather than 6.00am which was accepted by the Committee.

**128/15 RAILWAY INSTITUTE – Euston Road, Bangor**

Section 81 Building Act 1984 – Proposed Demolition - The Committee received notification from Gwynedd Council that a notice had been served upon it by the owners of the property with the intention of demolition. Members considered the matter and expressed grave concern that this important building was about to be demolished. It was noted that although the building had significant architectural interest it was not a listed building. Members felt that the building should be preserved and that it could be easily converted to residential development if need be.

**RESOLVED** that Gwynedd Council be informed that the City Council object to the demolition of this building.

---

The Meeting closed at 8.00 p.m.

**CHAIRMAN**

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun, 9 o Dachwedd, 2014** am 7.15 y.h.

Mrs E Butler

**PRESENNOL** :-

Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler		
Y Dirprwy Faer y Cynghorydd D Williams		
Y Cynghorwyr Mrs L Day	D Llewelyn	J M Martin
Mrs J Forsyth	Mrs J Marshall	G O Roberts
J Wynn Jones	R K Marshall	M Shultan

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

### 123/15 PENODI CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd M Shultan yn gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd Gwynant Roberts yn Is-gadeirydd am weddill blwyddyn y Cyngor.

### 124/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr D Hainge (salwch), D Madge (llawdriniaeth), N Pickavance (salwch) ac E H Williams (salwch).

### 125/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

### 126/15 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD** : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C15/0797/11/ CR** Dymchwel adeiladau presennol ac atgyweirio wal ble roedd yr adeiladau yn cyffwrdd. 390 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad**

**C15/1027/11/LL** Cais i ddymchwel tŷ presennol ynghyd â chodi tŷ newydd yn ei le. Coach House, Belmont Road, Bangor. **Dim gwrthwynebiad. Fodd bynnag, mynegodd yr aelodau lleol bryder am faint y datblygiad a dywedwyd y dylai'r Swyddog Cynllunio sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r rheoliadau cynllunio ac amgylcheddol.**

**C15/1081/11/LL** Ail gyflwyniad o gais blaenorol i fewnforio deunydd anadweithiol er mwyn codi lefelau tir presennol. Hen Iard Gychod Dickies, Ffordd y Traeth, Bangor. **Penderfynodd y Cynghorwyr ohirio unrhyw benderfyniad ar y cais hwn gan y credent fod angen mwy o wybodaeth o ran y deunyddiau fyddai'n cael eu defnyddio a hefyd pa mor uchel roedd y lefelau presennol i gael eu codi.**

**C15/1111/11/CR** Amnewid ffenestri llawr cyntaf gyda rhai traddodiadol pren, tynnu'r render a chadw'r gorffeniad carreg ar flaen yr adeilad a render calch ar weddill yr adeilad, ac amnewid drws modern ar yr ochr gyda ffenestr draddodiadol. Tan yr Allt House, Allt Glanrafon, Ffordd Deiniol, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

**C15/1120/11/LL** Estyniad cefn deulawr. 21 Ffordd Hendrewen, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

**C15/1126/11/HY** Gosod 2 arwydd wedi eu goleuo'n allanol ar bolyn presennol ac 11 arwydd ffenestr mewnol, heb eu goleuo. Farmfoods, Canolfan Siopa Britannia, Ffordd Caernarfon, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

Ni chymrodd y Cynghorydd Mrs J Marshall, sydd yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau uchod na phleidleisio arnynt heblaw am y ceisiadau yn ei Ward ei hun.

**127/15 MATERION PRIFFYRDD**

**PENDERFYNWYD** anfon llythyr o ddiolch i Gyngor Gwynedd am sicrhau fod y gwaith o roi wyneb newydd ar y ffordd a oedd i fod i ddiwydd rhwng cylchfan Asda a chylchfan Aldi cyn agor Pontio yn cael ei wneud yn ystod y nos, a bod awgrym yn cael ei wneud fod gwaith yn parhau ar hyd Ffordd Deiniol yn y dyfodol agos.

**128/15 MATERION TRWYDDEDU**

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Rhan II Rheoli Siopau Rhyw -Nice 'N' Naughty, 25 Stryd Fawr, Bangor. - **Dim gwrthwynebiad.**

Hysbysiad o Gais Deddf Trwyddedu 2003 - Trwydded Eiddo – Morrisons, Ffordd Caergybi, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Clerc, yn dilyn gwrthwynebiad Cyngor y Ddinas i'r oriau agor o safbwynt Deddf Drwyddedu 2013 a gyflwynwyd i'r pwyllgor diwethaf ynghylch Uned 5A Canolfan Menai, Ffordd Garth, Bangor, ei fod wedi cael ei hysbysu gan Gyngor Gwynedd fod yr ymgeisydd wedi cytuno i newid yr oriau agor i ddechrau am 9.00am yn hytrach na 6.00am a derbyniwyd hyn gan y Pwyllgor.

**129/15 RAILWAY INSTITUTE Ffordd Euston, Bangor**

Adran 81 Deddf Adeiladu 1984 - Cais i Ddymchwel - Derbyniodd y Pwyllgor hysbysiad gan Gyngor Gwynedd fod rhybudd wedi ei roi iddo gan berchnogion yr eiddo eu bod yn bwriadu ei ddymchwel. Wedi ystyried y mater, roedd gan yr Aelodau bryderon mawr ynglŷn â chwalu'r adeilad pwysig hwn. Nodwyd nad oedd yn adeilad rhestredig er bod iddo gryn ddiddordeb pensaernïol. Teimlai'r Aelodau y dylai'r adeilad gael ei gadw ac y gellid ei newid yn hawdd i ddatblygiad preswyl pe bai angen.

**PENDERFYNWYD** hysbysu Cyngor Gwynedd fod Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu dymchwel yr adeilad hwn.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

**CADEIRYDD**